COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 21 MAWRTH 2024 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

RM Granville

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | S J Griffiths |
| M L Hughes | G Walter | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Jones, RL Penhale-Thomas a T Thomas

C Marchant – Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Laura Kinsey - Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant
Jacqueline Davies - Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau |
| Y Cynghorydd Rhys Goode | Yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio |
| Y Cynghorydd John Spanswick | Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu a Lles Cymunedol |

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

| | |
|---|---|
| Martin Morgans | Pennaeth Partneriaethau a Thai |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau/Swyddog Craffu Dros Dro |

Datgan Buddiannau

Y Cyng. Alex Williams
Y Cyng. Heidi Bennett
Y Cyng. Amanda Williams
Y Cyng. Jane Gebbie

**108. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar 4 Medi 2023, 17 Ionawr 2024 a 30 Ionawr 2024 fel cofnodion gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Mawrth 2024 |

**109. Perfformiad Chwarter 3 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelodau Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:<br><br>1. Trafododd y Pwyllgor nad oedd cyfeiriad at weithgareddau sy'n dangos gwaith sy'n cael ei wneud i ddenu busnesau i'r ardal a gofynnodd i Sesiwn Briffio Aelodau gael ei threfnu ynghylch yr hyn sy'n |

| | |
|---|---|
| | cael ei wneud i hyrwyddo gweithgarwch economaidd yn y Fwrdeistref gan yr Awdurdod, trwy bartneriaeth â Llywodraeth Cymru, ac o 1 Ebrill 2024 â'r Cydbwyllgor Corfforaethol.<br>2. Gofynnodd y Pwyllgor am ymateb ysgrifenedig yn esbonio pam mae nifer y bobl sy'n defnyddio eiriolaeth annibynnol i gefnogi eu hawliau o fewn gofal cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol oedolion ar y lefelau sy'n ymddangos fel Perfformiad Coch ar gyfer Dangosyddion Perfformiad SSWB61 a a b.<br>3. Gofynnodd y Pwyllgor am ymateb ysgrifenedig yn esbonio'r rhesymau pam mae *PI "WB01.1.5 - Gwella gofal cymdeithasol i oedolion gyda chynllun strategol tair blynedd newydd i fynd i'r afael ag effeithiau corfforol ac iechyd meddwl Covid-19 ar bobl ag anghenion gofal a chymorth, a'n gweithlu"* yn ymddangos fel perfformiad gwyrdd a'r rhesymau pam mae *PI "WBO1.1.4 - Gwella Gwasanaethau Plant drwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun strategol tair blynedd"* yn ymddangos fel perfformiad melyn.<br>4. Cais i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ddarparu enghreifftiau o ddulliau cyfathrebu â phobl ifanc ac mae'n amlinellu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer WBO 6.2.1.<br>5. Copi o adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Ionawr 2024 ynghylch Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCAau). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Mawrth 2024 |

## 110. Adolygiad o’r Cynllun Corfforaethol/Cynllun Cyflawni ar gyfer 2024/25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau â’r Aelodau Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylw canlynol:<br><br>1. Gofynnodd y Pwyllgor i Weithdy gael ei drefnu i Aelodau COSC ystyried y ffordd orau o fesur safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor ac i drafod a nodi meysydd posibl y gellid eu harchwilio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Mawrth 2024 |

**8. Cynllun Strategol y Gweithlu**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau â'r Aelodau Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylw canlynol:<br>1. Gofynnodd y Pwyllgor i fwy o wybodaeth gael ei chynnwys mewn adroddiadau am y Cynllun yn y dyfodol, gan gynnwys enghreifftiau o ddata a manylion y camau gweithredu a gymerwyd ar gyfer pob thema i ddangos cynnydd, targedau ar gyfer y Cynllun yn y dyfodol, a'r defnydd o graffeg i ddangos cynnydd a lefelau staffio.<br>2. Gofynnodd y Pwyllgor i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun gael ei drefnu ar y Flaenraglen Waith ar gyfer 2024. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Mawrth 2024 |

**112. Diweddariad am y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A, gan nodi'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiad C, D ac E, a nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau B, F, G ac H: |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Mawrth 2024 |

**113. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 21 Mawrth 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:53.